Hawdd ei Ddeall



Maniffesto Cynghrair Bywyd Da 2026

Beth rydyn ni eisiau i bobl ag anabledd dysgu a phobl awtistig

Ebrill 2026

Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: Cynghrair Bywyd Da – Maniffesto y Senedd 2026



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Cynghrair Bywyd Da**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Gwefan: www.goodlife.wales/cymraeg

E-bost: contact@goodlife.wales

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi gwneud y ddogfen yma yn hawdd ei ddeall gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

Cynnwys

Am y maniffesto yma 4

Beth rydyn ni eisiau 6

1. Dod â phobl yn ôl adref a'u stopio rhag cael eu hanfon i ffwrdd 7

2. Adeiladu cartrefi a'r pethau mae pobl eu hangen i deimlo'n ddiogel ac yn hapus 11

3. Rhoi cyllid a grantiau at ei gilydd i wneud iddo weithio 14

Pam mae'r gwaith yma yn bwysig 18

Cysylltu â ni 20

Am y maniffesto yma

Ni ydy Cynghrair Bywyd Da.




Rydyn ni'n grŵp o bobl a sefydliadau yng Nghymru.



Rydyn ni eisiau i bobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig fyw gyda'u teuluoedd a'u cymunedau.



Dyma ein **maniffesto**.



Mae maniffesto yn esbonio ein syniadau a'n nodau.



Mae Etholiad y Senedd ym mis Mai 2026.



Dyma pryd rydyn ni'n pleidleisio dros bwy rydyn ni eisiau i'n cynrychioli yn Senedd Cymru.



Rydyn ni eisiau i wleidyddion a gwneuthurwyr penderfyniadau feddwl am y maniffesto yma wrth wneud eu cynlluniau eu hunain.

Beth rydyn ni eisiau

Rydyn ni eisiau i Lywodraeth nesaf Cymru wneud 3 prif beth:



1. Dod â phobl yn ôl adref a'u stopio rhag cael eu hanfon i ffwrdd.



2. Adeiladu cartrefi a'r pethau mae pobl eu hangen i deimlo'n ddiogel ac yn hapus.



3. Rhoi cyllid a grantiau at ei gilydd i wneud iddo weithio.

1. Dod â phobl yn ôl adref a'u stopio rhag cael eu hanfon i ffwrdd



Rydyn ni eisiau i bobl fyw yn y lleoedd a'r ffyrdd maen nhw'n eu dewis. Lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel ac yn cael eu croesawu.

Mae hyn yn meddwl:



- Gwneud newidiadau i ddod â phobl yn ôl i'w cymunedau.



- Symud pobl allan o leoedd pell neu anniogel.



- Creu ffyrdd o stopio hyn rhag digwydd eto.

Sut fyddai hyn yn helpu

Fe fyddai yn:



- Stopio penderfyniadau a gweithredoedd sy'n anwybyddu hawliau pobl.



- Helpu pobl i fyw bywydau da gyda rhyddid a dewis.



- Stopio ffyrdd anniogel neu wael o weithio sydd yn gallu brifo pobl.



- Arbed arian trwy leihau nifer y bobl sy'n byw mewn gofal hirdymor.

Beth rydyn ni eisiau i ddigwydd

Rydyn ni eisiau i Lywodraeth Cymru:



- Gosod nod i wneud i hyn ddigwydd. Fe ddylai'r nod gynnwys safbwyntiau:
  - pobl ag anableddau dysgu,
  - pobl awtistig,
  - a'u teuluoedd.



Fe ddylai'r Senedd gael yr wybodaetrh ddiweddaraf am beth sy'n digwydd i gyflawni'r nod yma.



- Edrych a rhannu'r wybodaeth sydd gennym am bobl sy'n byw mewn ysbytai, neu i ffwrdd o'u cartrefi. Rhaid i hyn ddigwydd yn gyflym.



- Dilyn y syniadau o'r ymgyrch **Bywydau wedi eu Dwyn.**



- Darparu cymorth lleol ardderchog. Fe ddylai fod yn lleoedd diogel, tymor byr i bobl mewn perygl. Fe ddylai'r lleoedd yma barchu hawliau pobl.



- Edrych ar y rheolau a'r hyfforddiant ar gyfer darparwyr gwasanaeth. Fe ddylai gwasanaethau barchu hawliau pobl.



- Darparu cefnogaeth dda lle bynnag mae pobl yn byw. Gan gynnwys cefnogaeth a seibiannau i deuluoedd a gofalwyr.

2. Adeiladu cartrefi a'r pethau mae pobl eu hangen i deimlo'n ddiogel ac yn hapus

Mae hyn yn meddwl:



- Cynllunio ac adeiladu cartrefi a chymunedau fel bod pobl yn gallu byw yn agos at lle maen nhw'n perthyn.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn teimlo eu bod nhw'n cael eu croesawu, yn ddiogel ac yn gartrefol.



Sut fyddai hyn yn helpu

Fe fyddai yn:



- Stopio pobl rhag cael eu hanfon ymhell o gartref oherwydd nad oes tai.



- Helpu pobl ifanc i gynllunio ar gyfer bywyd fel oedolion. Gwneud yn siŵr bod ganddyn nhw opsiynau yn agosach at adref.



- Gwneud tai yn ddiogel, yn hawdd i'w cyrraedd ac yn fforddiadwy. Mae hyn yn cynnwys:
  - Newid cartrefi teuluol i ateb anghenion pobl.
  - Tai cymdeithasol newydd.
  - Cefnogaeth i fyw sydd yn cael ei rannu.

Beth rydyn ni eisiau i ddigwydd



Fe ddylai pawb gael cynllun tai o 14 oed. Fe fydd hyn yn eu helpu i symud i wasanaethau oedolion yn esmwyth.



Fe ddylid edrych ar anghenion pobl bob blwyddyn. Felly rydyn ni'n gwybod eu bod nhw a'u gofalwyr yn cael y gefnogaeth gywir.



Fe ddylai tai a chynlluniau cymunedol ateb anghenion pobl. Fe ddylen nhw gefnogi pobl gyda gwahanol bethau fel:

- cartref
- gweithgareddau dydd
- gofal tymor byr
- a gwasanaethau lleol eraill.



Fe ddylai pobl sy'n aros mewn ysbytai am gyfnod hir gael eu cynnwys yn y rhestr digartrefedd lleol. Mae hyn yn gwneud eu tai yn flaenoriaeth.

3. Rhoi cyllid a grantiau at ei gilydd i wneud iddo weithio



Rydyn ni angen i gyllid iechyd a gofal cymdeithasol fod gyda'I gilydd. Felly mae cael y gefnogaeth gywir yn syml ac yn hawdd.

Sut fyddai hyn yn helpu

Fe fyddai yn:



- Cadw pobl yn agos at adref gyda chefnogaeth.



- Lleihau cost darparu gofal ysbyty a lleoliadau y tu allan i'r ardal.



- Stopio rheolau a phroblemau arian rhag cadw pobl yn y lleoedd anghywir.



- Rhoi cynllun clir i bobl sy'n cynllunio a threfnu gofal, fel eu bod nhw'n gallu gwario arian i greu opsiynau cymunedol da.



Beth rydyn ni eisiau i digwydd



Fe ddylai fod rheolau cenedlaethol ar gyfer arian iechyd a gofal cymdeithasol. Fe ddylai'r ffocws fod ar beth sydd orau i'r person.



Fe ddylai byw yn y gymuned ddod yn gyntaf. Lle mae pobl yn gallu byw gartref neu mewn lle byw â chymorth.



Fe ddylai pobl allu defnyddio taliadau uniongyrchol i wneud eu dewisiadau eu hunain.



Uno cyllid o wahanol leoedd, fel:

- Cyllid gofal iechyd.
- Grantiau cymorth tai gofal cymdeithasol.
- Cyllid gofal i bobl ag anableddau dysgu a phobl awtistig.
- Cyllid y GIG ar gyfer ysbytai a lleoedd ar gyfer arhosiad hir.



Pam mae'r gwaith yma yn bwysig



Mae gormod o bobl yn aros mewn ysbytai neu gartrefi gofal am rhy hir.



Mae rhai pobl yn cael eu hanfon i ysbytai ymhell oddi wrth eu teuluoedd a'u ffrindiau. Mae hyn yn gallu gwneud iddyn nhw deimlo'n unig ac yn anniogel.



Mae adroddiadau'n dangos bod pobl yn y lleoedd yma mewn mwy o berygl o gael eu hanafu. Neu beidio â chael gofal na chefnogaeth.



Mae byw mewn ysbytai a chartrefi gofal yn gallu costio llawer o arian bob blwyddyn. Gellid defnyddio'r arian ar gyfer gwasanaethau lleol da.



Mae angen cynllunio a chyllid ar y cyd. Yn enwedig ar gyfer iechyd, gofal a thai.



Dydy gwasanaethau cymunedol mae pobl eu hangen ddim yr un peth ym mhob man yng Nghymru. Mae angen i ni gytuno ar beth sydd ei angen a gwneud gwasanaethau'n well.

Cysylltu â ni



Cysylltwch â ni os ydych chi eisiau dweud beth rydych chi'n feddwl am y maniffesto yma.



Neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y maniffesto yma



E-bost: contact@goodlife.wales



Gwefan: www.goodlife.wales/cymraeg

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247